

Brîff swydd y Cydgysylltydd Cymorth i Brosiectau llawrydd

Mae WAHWN yn awyddus i benodi Cydgysylltydd Cymorth i Brosiectau profiadol a brwdfrydig yng Nghymru; bydd yn gweithio'n llawrydd am ddau ddiwrnod yr wythnos i hyrwyddo'r gwaith o gydgysylltu a hwyluso nifer o raglenni a digwyddiadau cenedlaethol.

Gan gyfrannu galluedd ac arbenigedd ychwanegol i WAHWN rhwng diwedd mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, byddwch yn cynorthwyo'r Cyfarwyddydd a'r Rheolwr Rhaglenni ar sawl rhaglen, gan gynnwys:-

- Hyrwyddo tasgau cydgysylltu a hwyluso sesiynau dysgu grwpiau o gymheiriaid
- Cefnogi cyfarfodydd rhwydweithio misol a digwyddiadau hyfforddi
- Marchnadfeydd/Market Places
- Cymorth cydgysylltu cynadleddau

Sgiliau, Gwybodaeth a Rhinweddau Hanfodol

- Gwybodaeth am y celfyddydau a'r sector iechyd yng Nghymru, a rôl fuddiol y celfyddydau yng nghyd-destun iechyd a llesiant
- Hanes profedig o hyrwyddo digwyddiadau ar-lein
- Profiad o hyrwyddo digwyddiadau ar raddfa fawr
- Hyder a phrofiad blaenorol o baratoi a hyrwyddo agweddau technegol mewn cyfarfodydd a digwyddiadau ar-lein (Teams a Zoom) - gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Jam Board, Miro, a sefydlu a rheoli sesiynau grŵp
- Sgiliau cyd-drefnu a gweinyddu rhagorol
- Gwybodaeth drylwyr am Microsoft Outlook – Word, Excel, PowerPoint ac Outlook
- Cyfathrebydd Hyderus
- Hyblyg, yn gallu cadw'ch pen a chanolbwytio ar atebion
- Yn gallu gweithio'n ymreolus, dan oruchwyliaeth ysgafn

Sgiliau a Gwybodaeth sy'n Ddymunol

- Sgiliau llafar ac ysgrifenedig yn y Gymraeg
- Bod yn gyfarwydd â'r gymuned artistig/greadigol genedlaethol yng Nghymru

Ffi

Cynigir ffi gynhwysol o £8800 am 2 ddiwrnod disgwylidig yr wythnos, o ddiwedd mis Ebrill 2023 tan fis Mawrth 2024, seiliedig ar gyfartaledd o £200 y dydd.

Mae hyd at £1000 o dreuliau ar gael yn erbyn derbynebaw (teithio, llety ac ymgynnal, gan gynnwys cost mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau ac ymweld â sefydliadau partnerol, fel y bo'n briodol).

Amodau a Thelerau Cryno

Rôl: Cydgysylltydd Llawrydd Prosiectau

Yn adrodd i: Cyfarwyddydd a Rheolwr Rhaglenni WAHWN

Natur y Contract: contract am wasanaethau llawrydd dros gyfnod penodol. Telir ffi i'r Cydgysylltydd Cymorth i Brosiectau wedi iddo/iddi gyflwyno anfonebau (bob pythefnos neu bob mis, i'w gytuno).

Ffi: £8800 (gan gynnwys TAW). Y Cydgysylltydd Cymorth i Brosiectau fydd yn gyfrifol am ei dreth a'i Yswiriant Gwladol ei hun.

Lleoliad: Bydd y Cydgysylltydd Cymorth i Brosiectau yn gweithio gartref (neu yn ei swyddfa ei hun); bydd ganddo/i ei g/chyfarpar ei hun, a bydd yn gweithio yng Nghymru.

Datganiadau o Ddiddordeb

Anfonwch eich datganiad o ddiddordeb i Angela Rogers, Cyfarwyddydd WAHWN, info@wahwn.cymru erbyn **canol dydd ar 24^{ain} Mawrth**. Dylai datganiadau o ddiddordeb gynnwys: -

- Llythyr heb fod yn hwy na 500 o eiriau, yn manylu ar eich profiad perthnasol a'ch addasrwydd mewn perthynas â'r briff a manyleb y person.
- CV
- Manylion dau ganolwr (na chysylltir â hwy nes ichi dderbyn cynnig)

Llenwch y Ffurflen Ffonitro Cyfartaledd ac Amrywiaeth hefyd os gwelwch yn dda:

<https://forms.office.com/e/xtq0v6c7pi>

Cyfweliadau

Fe hysbysir ymgeiswyr yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar y **3^{ydd} Ebrill** os ydynt wedi cael eu cynnwys ar y rhestr fer. Cynhelir cyfweliadau yn ystod wythnos yr **17^{eg} Ebrill**. Rhowch wybod inni yn eich Datganiad o Ddiddordeb os oes yna ddyddiadau yn ystod yr wythnos honno pan na fyddwch chi ar gael ar gyfer cyfweliad. Cynhelir cyfweliadau ar-lein, a byddant yn cymryd tua 40 munud.

Mae WAHWN wedi ymrwymo i gydraddoldeb mynediad i'w swyddi ac i'w wasanaethau. Croesawn geisiadau gan bobl ym mhob rhan o'r gymuned. Os oes angen ichi dderbyn y wybodaeth hon mewn fformat arall, cysylltwch â ni ar info@wahwn.cymru

Ynghylch WAHWN

WAHWN yw'r corff arweiniol yng Nghymru sy'n cefnogi'r celfyddydau a iechyd. Mae gan WAHWN rwydwaith cyfoethog o gysylltiadau â phartneriaid strategol (cyrff cyhoeddus, cyllidwyr/buddsoddwyr, partneriaid iechyd a phrifysgolion) yr ydym wedi magu perthynas ardderchog gadarn â hwy. Yn ogystal mae gennym fynediad at gyfoeth aruthrol o wybodaeth, creadigrwydd, egni, syniadau ac arloesedd diolch i'n cysylltiadau clòs o ddydd i ddydd â'r 680+ o aelodau o'n rhwydwaith. Mae'r hyn a fwydir i mewn i'n banc gwybodaeth ni, ynghyd â gwaith ein rhwydwaith a'r gefnogaeth a roddwn ni i'r rhwydwaith yn ei dro yn nhermau hyfforddiant, ymgynghori, meithrin gallu, rhwydweithio a chreu llais cenedlaethol i'r sector, yn creu undeb cydweithredol a chyd-gefnogol.

Mae WAHWN yn etifedd i ddwy raglen genedlaethol o bwys, sef y rhaglen llesiant artistiaid [How Ya Doing? Sut Mae'n Mynd?](#) a [HARP \(Health Arts Research People\)](#). Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i adeiladu ar sail treftadaeth y ddwy raglen yma dros y blynyddoedd nesaf.

Grwpiau Dysgu Cynorthwyo Cymheiriaid

Mae WAHWN yn hwyluso grwpiau dysgu cynorthwyo cymheiriaid ar-lein yn rheolaidd, gan ddod â derbynwyr grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Loteri iechyd ynghyd i archwilio heriau a chyflawniadau prosiectau mewn amser real. Mae'r rhaglen yma'n adeiladu ar sail argymhellion rhaglen HARP (Health Arts Research People) ar gyfer rhwydweithiau celfyddydau a iechyd.

Market Places / Marchnadfeydd

Mae Marchnadfeydd WAHWN yn ddigwyddiadau rhwydweithio wyneb-yn-wyneb rhanbarthol sy'n dod ag ymarferwyr yn y celfyddydau a phresgripsiynwyr cymdeithasol neu Gysylltwr Cymunedol ynghyd i rwydweithio a chydrannu buddion y celfyddydau ym maes presgripsiynu cymdeithasol. Llwyddodd digwyddiad ar-lein diweddar WAHWN ar gyfer Cysylltwr Cymunedol, Cysylltiadau Creadigol, i ddenu 60 o gynrychiolwyr o bob cwr o Gymru, a mynnodd 86% ohonynt eu bod yn fwy tebyg bellach o gyfeirio eu cleientiaid at y celfyddydau.

Digwyddiadau Hyfforddi a Rhwydweithio

Mae digwyddiadau hyfforddi a rhwydweithio'n elfen graidd o raglen WAHWN. Trwy gyfrwng digwyddiadau rhwydweithio ar-lein bob mis ar wahanol themâu rydym yn cynorthwyo aelodau i gysylltu a rhannu blaenoriaethau allweddol yn y sector, gan wahodd cyfranwyr allanol lle bo'n briodol i gydrannu'r arferion gorau. Mae WAHWN yn cynnal 2-3 digwyddiad hyfforddi hefyd bob blwyddyn. Mae'r hyfforddiant yn y gorffennol wedi cwmpasu gwerthuso creadigol, mesur yr adenillion cymdeithasol o fuddsoddi, a gwella amgylcheddau gofal iechyd.

Cynhadledd

Yn yr Hydref 2023, bydd WAHWN yn cynnal cynhadledd wyneb-yn-wyneb gan ddod â gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau a iechyd ynghyd i gyfnewid eu syniadau ynghylch rhai o'r heriau allweddol ym maes iechyd yng Nghymru ac archwilio rôl y celfyddydau yn y cyd-destun yma.

